*Statws* *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 667 (Cy.59)

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod)(Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *12 Mawrth 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 216(1) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988(**1**) ac sydd bellach wedi'u breinio ynddynt hwy(**2**) yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) (Diwygio) 2009 a daw i rym ar 6 Ebrill 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2007**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2007(**3**) yn cael ei ddiwygio fel a ganlyn.

**3.** Yn yr Atodlen hon—

(a) hepgorer—

(i) "Henley Management College"; a

(ii) "University of Paisley".

(b) yn lle—

(i) "Buckinghamshire Chilterns University College", rhodder "Buckinghamshire New University";

(ii) "University of Central England in Birmingham", rhodder "Birmingham City University";

(**1**) 1988 p.40.
(**2**) Yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, O.S. 1999/672) a pharagraff 30(1) a (2)(a) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
(**3**) O.S. 2007/2795 (Cy.235).

(iii) "College of St. Mark and St. John, Plymouth, The" rhodder "University College Plymouth, St. Mark and St. John";

(iv) "University College for the Creative Arts at Canterbury, Epsom, Farnham, Maidstone and Rochester" rhodder "University for the Creative Arts";

(v) "Newman College of Higher Education, Birmingham", rhodder "Newman University College".

**4.** Yn yr atodlen, mewnosoder yn y man priodol—

(a) "Arts Institute at Bournemouth, The";

(b) "Ashridge (Bonar Law Memorial) Trust (a elwir hefyd "Ashridge")";

(c) "Coleg Prifysgol y Drindod (Trinity University College)"

(ch) "University College Birmingham";

(d) "Prifysgol Glyndŵr (Glyndŵr University)";

(dd) "Norwich University College of the Arts";

(e) "Prifysgol Fetropolitan Abertawe (Swansea Metropolitan University)";

(f) "UHI Millenium Institute"; ac

(ff) "University of the West of Scotland".

*Jane Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

12 Mawrth 2009

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae Gorchymyn Addysg (Cyrff sy'n Cael eu Cydnabod) (Cymru) 2007 yn yn rhestru'r holl gyrff hynny yr ymddengys i Weinidogion Cymru eu bod yn gyrff cydnabyddedig o fewn adran 214 (2)(a) neu (b) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 ("Deddf 1988"). Mae cyrff o'r fath naill ai:

(a) yn brifysgolion, yn golegau neu'n gyrff a awdurdodwyd drwy Siarter neu drwy Ddeddf Seneddol neu oddi tani i ddyfarnu graddau; neu

(b) yn gyrff eraill a ganiateir am y tro gan unrhyw gorff sy'n cwympo o fewn paragraff (a) i weithredu ar ei ran wrth ddyfarnu graddau.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 2007 ac yn diweddaru'r rhestr o gyrff a geir yn yr atodlen i'r Gorchymyn hwnnw. Caiff nifer o gyrff eu hepgor o'r Atodlen gan nad oes ganddynt bellach bwerau i ddyfarnu graddau neu am eu bod wedi cyfuno â chyrff eraill. Cafodd nifer o gyrff newydd eu mewnosod yn yr Atodlen gan ei bod yn ymddangos i Weinidogion Cymru fod y cyrff hynny bellach yn cwympo o fewn naill ai (a) neu (b) uchod. Cafodd nifer o fân newidiadau hefyd eu gwneud i'r Atodlen i gymryd ystyriaeth o newidiadau i enwau a wnaed ers pan wnaed Gorchymyn 2007.